Addysgu a dysgu effeithiol

Egwyddorion ar sail tystiolaeth i dywys polisi ac arferion

1 ARFOGI DYSGWYR AR GYFER BYWYD YN EI YSTYR EHANGAF

Dylai dysgu geisio helpu pobl i ddatblygu'r adnoddau deallusol, personol a chymdeithasol a fydd yn eu galluogi i gymryd rhan fel dinasyddion a gweithwyr brwd a blodeuo fel unigolion mewn cymdeithas amrywiol sy'n newid. Mae hyn yn awgrymu golwg eang ar ddeilliannau dysgu a rhoi sylw difrifol i degwch a chyfiawnder cymdeithasol.

2 YMWNEUD Â FFURFIAU AR WYBODAETH SYDD O WERTH

Dylai addysgu a dysgu ymwneud â'r syniadau mawr, ffeithiau, prosesau, iaith a naratifau pynciau er mwyn i ddysgwyr ddeall beth yw ansawdd a safonau mewn disgyblaethau penodol.

3 CYDNABOD PWYSIGRWYDD PROFIAD A DYSGU BLAENOROL

Dylai addysgu roi sylw i'r hyn y mae dysgwyr yn ei wybod eisoes er mwyn cynllunio'u camau nesaf. Mae hyn yn golygu adeiladu ar sail dysgu blaenorol yn ogystal ag ystyried profiadau personol a diwylliannol gwahanol grwpiau.

4 GOFYN I'R ATHRAWON SGAFFALDIO'R DYSGU

Dylai athrawon ddarparu gweithgareddau sy'n cefnogi'r dysgwyr wrth iddyn nhw symud yn eu blaen, nid dim ond yn ddeallusol, ond hefyd yn gymdeithasol ac yn emosiynol, er mwyn i'r dysgu fod yn gadarn ar ôl tynnu'r gynhaliaeth hon.

5 ASESU ANGHENION YN GYFATH Â'R DYSGU

Dylai'r asesu hwyluso hynt y dysgu yn ogystal â phenderfynu a oes dysgu wedi digwydd. Dylid ei gynllunio a'i gynnal er mwyn iddo fesur deilliannau dysgu mewn ffordd ddibynadwy a hefyd er mwyn darparu adborth ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

6 ANNOG Y DYSGWR I YMROI'N FRWD

Dylai hyrwyddo annibyniaeth ac awtonomi'r dysgwyr fod yn un o brif nodau'r addysgu a'r dysgu. Mae hyn yn golygu meddu ar gyfres o strategaethau ac arferion dysgu, datblygu agwedd adeiladol at ddysgu, a hyder ynddyn nhw eu hunain fel dysgwyr da.

7 MEITHRIN PROSESAU A DEILLIANNAU UNIGOL A CHYMDEITHASOL

Gweithgarwch cymdeithasol yw dysgu. Dylid annog dysgwyr i weithio gydag eraill, i rannu syniadau ac i adeiladu gwybodaeth gyda'i gilydd. Mae ymgynghori â dysgwyr a rhoi llais iddyn nhw yn rhywbeth a ddisgwylir ac yn rhywbeth sy'n hawl.

8 CYDNABOD PWYSIGRWYDD DYSGU ANFFURFIOL

Dylid cydnabod bod dysgu anffurfiol, megis dysgu y tu allan i'r ysgol, yr un mor bwysig â dysgu ffurfiol ac y dylid ei werthfawrogi a'i ddefnyddio'n briodol mewn addysg ffurfiol.

9 DIBYNNU AR ATHRAWON YN DYSGU

Mae'n bwysig bod athrawon yn dysgu'n barhaus er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau, gan addasu a datblygu eu rolau, yn enwedig drwy gyfrwng ymchwiliadau yn yr ystafell ddosbarth, a dylid cydnabod a chefnogi hyn.

10 GOFYN BOD FFRAMWEITHIAU POLISI CYSON AR GAEL SYDD AG ADDYSGU A DYSGU'N BRIF FFOCWS IDDYN NHW

Mae angen i bolisïau ar lefelau cenedlaethol, lleol a sefydliadol gydnabod pwysigrwydd hanfodol addysgu a dysgu. Dylid eu cynllunio i sicrhau bod gan bawb lwybr at amgylcheddau dysgu y gallan nhw ffynnu ynddyn nhw.

247/2003/A-EAC-02-01-TLRP/PG